**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (170)**
**Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mercher, 23 Tachwedd 2005**

## Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm

**..........................**

**2.00pm**

**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 4 + 6 eu grwpio. Tynnwyd cwestiynau 10 + 13 yn ôl.

**..........................**

**2.38pm**

**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

Atebwyd pob cwestiwn. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 12.

**..........................**

**Pwynt o drefn - Nicholas Bourne**

……………………….

**3.06pm**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005**

**NDM2688 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Symud a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai'r rheoliadau fod wedi datgan mai'r ceidwad cofrestredig diwethaf fyddai'n gyfrifol am gost symud a gwaredu cerbydau.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O Blaid 41; Ymatal 9; Yn erbyn 1; Cyfanswm 51**
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Symud a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005.

Yn credu y dylai'r rheoliadau fod wedi datgan mai'r ceidwad cofrestredig diwethaf fyddai'n gyfrifol am gost symud a gwaredu cerbydau.

**O Blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51**
**Derbyniwyd y cynnig.**

**NDM2689 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno

ar 15 Tachwedd 2005 ynglyn â rheoliadau drafft, Rheoliadau Symud a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005; ac

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Symud a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005; ac

c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2005

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O Blaid 49; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 49**
**Derbyniwyd y cynnig.**

**............................**

## 3.20pm

## Cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau Rheolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol (Cymru) 2005

NDM2690 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Rheolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol (Cymru) 2005 y gosodwyd

copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O Blaid 51; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 51**
**Derbyniwyd y cynnig.**

**NDM2691 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno

   ar 15 Hydref 2005 ynglyn â rheoliadau drafft, Rheoliadau Rheolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol (Cymru) 2005 ac

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Rheolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:

   a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005;

   b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005; ac

   c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O Blaid 50; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 50**
**Derbyniwyd y cynnig.**

**............................**

## 3.25pm

### Dadl ar Gynnig Gwenda Thomas yn unol a Rheol Sefydlog 31

**NNDM2641 Gwenda Thomas (Castell-nedd) R**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 31.2:

Yn cefnogi mewn egwyddor deddfwriaeth i:

1. Gychwyn Adran 175 Deddf Addysg 2002 (dyletswyddau AALlau a chyrff llywodraethu mewn perthynas â lles plant) yng Nghymru; a

2. Chytuno y dylai unrhyw arweiniad a gyhoeddir dan Adran 175(4) gynnwys materion megis enwebu llywodraethwr dynodedig i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant a sefydlu cronfa ddata AALl o lywodraethwyr dynodedig.

*Mae datganiad o bwerau cyfreithiol a fyddai'n caniatáu'r ddeddfwriaeth a gynigir, ac arwydd o'r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill er mwyn helaethu ar y cynnig, fel a ganlyn:*

Datganiad o Bwerau Cyfreithiol

Mae Adran 216(4) Deddf Addysg 2002 yn rhoi pwer i'r Cynulliad Cenedlaethol gychwyn darpariaethau Deddf 2002 mewn perthynas â Chymru.

Goblygiadau o ran Adnoddau

Ar hyn o bryd, nid yw Adran 175 Deddf Addysg 2002 wedi ei chychwyn yng Nghymru, er iddi gael ei chychwyn yn Lloegr ym mis Mehefin 2004. Ni fydd y gofyniad hwn yn golygu unrhyw gynnydd mewn cydnabyddiaeth ac fe gyflawnir y dyletswyddau hyn dan y trefniadau cyllidebu cyfredol. Bydd unrhyw wariant prin werth sôn amdano.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O Blaid 46; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 46**
**Derbyniwyd y cynnig.**

**...........................**

## 3.56pm

## Dadl ar y Drefn Cymorth Gwladwriaethol

**NDM2692 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi camau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran cyfrannu at ddatblygu’r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol diwygiedig a’r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Cymorth Gwladol yr UE.

*Anfonwyd copïau o 'Regional Aid Guidelines – Draft Guidelines on national regional state aid' a’r 'State Aid Action Plan - Less and better targeted state aid: a roadmap for state aid reform 2005-2009' at Aelodau’r Cynulliad dros yr e-bost ar 16 Tachwedd 2005*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
***Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:***

**(1 + 2)**
**(3 + 4)**
**(5)**

**Gwelliant 1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai penderfyniad cyflym ar gyllideb yr Undeb Ewropeaidd o fudd i Gymru.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52**
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y setliad Cymorth Gwladol yn mwyhau’r budd economaidd i Gymru dros y blynyddoedd nesaf.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O Blaid24 ; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52**
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi os caiff cyllideb yr UE ei ostwng i uchafswm o 1% o'r CMC, y byddai Cymru'n annhebyg iawn o gymhwyso ar gyfer cyllid Amcan Un ac o ganlyniad uniongyrchol ni fyddai'n cymhwyso fel ardal Erthygl 87(3)a.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O Blaid 15; Ymatal 9; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52**
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn ymuno â rhanbarthau ac ardaloedd llywodraeth leol eraill yr Undeb Ewropeaidd yn eu gwrthwynebiad i ymdrechion llywodraeth y DU i leihau cyfraniadau cyllideb i uchafswm o 1% o'r CMC.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O Blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 37; Cyfanswm 52**
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog Llywodraeth y DU i negodi gyda'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn galluogi wardiau difreintiedig, nad ydynt wrth ymyl ardal Erthygl 87(3)c neu Effaith Ystadegol, i gael eu dynodi'n ardal Erthygl 87(3)c.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**O Blaid 15; Ymatal 8; Yn erbyn 28; Cyfanswm 51**
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O Blaid 37; Ymatal 9;Yn erbyn 5; Cyfanswm 51**
**Derbyniwyd y cynnig.**

**.............................**

**4.56pm**

**Y Ddadl Fer - NDM2693 William Graham (Dwyrain De Cymru): Heroin – A yw Lemmy yn iawn?**

**............................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.12pm**

**.................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 29 Tachwedd 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**